**Cyfarfod Llawn 2002 – 2003 (16)**

**Dydd Iau, 4 Gorffennaf 2002**

# PLEIDLEISIAU A THRAFODION

**Dechreuodd y Cyfarfod am 9.05am**

**Cwestiynau i Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd**
Atebwyd y 6 chwestiwn cyntaf.

**9.33am**
**Cwestiynau Cyllid i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Atebwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Ni ofynnwyd cwestiwn 5.

**9.51am**
**Pwynt o Drefn**
Gwnaeth y Llywydd ddatganiad mewn ymateb i bwynt o drefn a godwyd gan David Melding ar 14 Mawrth ynghylch cyhoeddi atebion gweinidogol i Gwestiynau'r Cynulliad.

**9.54am**
**Cymeradwyo Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2002**
***NDM1102 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Ardrethi Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mehefin 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**

O blaid 40; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 40

**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn.**

***NDM1103 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Ardrethi Annomestig (Newid Rhestri ac Apelau) (Diwygio) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y

Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2002; ac

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mehefin 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**

O blaid 39; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 39

**Cymeradwywyd y Gorchymyn.**

**9.56am**
**Cymeradwyo Gorchymyn Digartrefedd (Cychwyn) (Cymru) 2002**
***NDM1104 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Digartrefedd 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2002 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**

O blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42

**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn.**

***NDM1105 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Digartrefedd 2002 (Cychwyn) (Cymru) 2002, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2002; ac

2. Yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Gorchymyn**

O blaid 41; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 41

**Cymeradwywyd y Gorchymyn.**

**10.11am**
**Cymeradwyo, o dan Reolau Sefydlog 23 & 22.25, Gorchymyn NICE (Ei Sefydliad a'i Gyfansoddiad) 2002 a Rheoliadau NICE 1999 (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2002**
***NDM1106 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Gan weithredu yn unol â Rheolau Sefydlog 22.25, 23.10 a 23.11:

1. Yn cymeradwyo:
a) **Gorchymyn y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (Sefydlu a Chyfansoddiad) (Diwygio) 2002 drafft**, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2002; ac

b) y Memorandwm esboniadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2002.

2. Yn cymeradwyo:
a) **Rheoliadau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (Diwygio) 2002 drafft,** y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2002; ac

b) y Memorandwm esboniadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mehefin 2002.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig cyfansawdd**

O blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43

**Derbyniwyd y cynnig cyfansawdd.**

**10.12am**
**Cynnig i Ddirprwyo Swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol i Brif Weinidog Cymru o dan Adran 2 (2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972**
***NDM1107 -*** *Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru*, gan weithredu'n unol ag adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol, heblaw am y rhai hynny na ellir eu dirprwyo yn gyfreithiol, sydd wedi eu cynnwys yn y rheoliadau neu sy'n dod o dan y rheoliadau a wnaed gan:

a) y Cynulliad Cenedlaethol (boed wedi'u gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unig neu ar y cyd ag un o Weinidogion y DU, un o Adrannau Llywodraeth y DU neu Weithrediaeth yr Alban neu Ogledd Iwerddon) o dan adran 2(2) Deddf Cymunedau Ewrop 1972 yn unol â'r swyddogaethau a roddwyd i'r Cynulliad gan:

Orchymyn Cymunedau Ewrop (Dynodiadau) 2002 (OS 2002/248), (ar gael ar wefan yr HMSO yn:**http://www.hmso.gov.uk/si/si2002/20020248.htm**; neu

(b) un o Weinidogion y DU o dan ei bwerau/phwerau cyfatebol, o dan yr adran 2(2) y cyfeirir ati uchod, mewn perthynas ag unrhyw un o'r mesurau y rhoddwyd eu swyddogaethau i'r Cynulliad Cenedlaethol yn y Gorchymyn Dynodi.

*[Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.]*

**Cynhaliwyd pleidlais**

O blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42

**Derbyniwyd y cynnig.**

**10.19am**
**Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol**
***NDM1108 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. Yn ystyried yr Adroddiadau Blynyddol ar y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol (yn unol ag adran 7.1 y Cynllun) ar gyfer cyfnodau Awst 2000 i Fawrth 2001 ac Ebrill 2001 i Fawrth 2002.

2. Yn croesawu'r dystiolaeth o'r cydweithio cynhyrchiol sydd wedi datblygu dros y cyfnodau hyn.

Gosodwyd yr Adroddiadau Blynyddol ar y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol ar gyfer y cyfnodau Awst 2000 i Fawrth 2001 ac Ebrill 2001 i Fawrth 20002 yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2002.

Er gwybodaeth, mae copi o'r Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol i'w gael ar y Fewnrwyd a'r Rhyngrwyd. Y ddolen ar y fewnrwyd yw: http://assembly/localgovernmen/Partnership%20Council/Remit.html

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ym mhwynt 1, dileu ‘cyfnodau Awst 2000 i Fawrth 2001 ac’

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ar ôl pwynt 1, ychwanegu pwynt newydd ac ailrifo’r pwyntiau dilynol yn unol â hynny.
Yn gwrthod yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol (yn unol ag adran 7.1 y cynllun) ar gyfer Awst 2000 i Fawrth 2001, gan ei fod wedi’i ddisodli gan yr adroddiad ar gyfer Ebrill 2001 i Fawrth 2002.

**Gwelliant 3 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu’r pwynt 2 gwreiddiol ac yn ei le rhoi:
Yn nodi’r datblygiadau sy’n codi o’r Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol, yn arbennig Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, a Buddsoddi trwy Bartneriaeth yng Nghymru.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O blaid 9; Ymatal 0; Yn erbyn 35; Cyfanswm 44

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2**

O blaid 8; Ymatal 0; Yn erbyn 35; Cyfanswm 43

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3**

O blaid 8; Ymatal 0; Yn erbyn 36; Cyfanswm 44

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Y cynnig**

O blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44

**Derbyniwyd y cynnig.**

**10.47am**
**Dadl ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r adroddiad Gwireddu'r Addewidion**
***NDM1109 -*** *Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. Yn croesawu'r cyfraniad a wnaed gan Adroddiad y Grwp Ymgynghorol ar Anableddau Dysgu, 'Gwireddu'r Addewidion''.

2. Yn nodi ymatebion yr ymgynghoriad i'r Adroddiad hwn.

3. Yn cefnogi cynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru i barhau i weithredu'r strategaeth hon ar gyfer pobl ag anableddau dysgu.

Gosodwyd Adroddiad y Grwp Ymgynghorol ar Anableddau Dysgu "Gwireddu'r Addewidion" yn y swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2001.

Mae crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad ar gael ar y Rhyngrwyd a cheir atynt trwy ddefnyddio'r ddolen:
http://www.wales.gov.uk/subisocialpolicy/content/learning/ldagreport/contents-e.htm
Ceir copiau papur o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn Llyfrgell y Cynulliad.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 -  Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ym mhwynt 3, ychwanegu ar ôl 'strategaeth':
', gan gydnabod yr her ddifrifol o ran cyllido a darparu gwasanaethau'

**Gwelliant 2 -  Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Yn cydnabod y dylai dewis fod yn egwyddor ganolog yn y strategaeth hon ac y gellir gwireddu hynny'n rhannol drwy hyrwyddo gwasanaethau eiriolaeth a sicrhau bod taliadau uniongyrchol ar gael.'

**Gwelliant 3 -  Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
5. Yn credu y dylai pobl ag anableddau dysgu gael archwiliad iechyd bob blwyddyn ac y dylai staff iechyd gael eu hyfforddi i adnabod anghenion iechyd pobl ag anableddau dysgu.

**Gwelliant 4 -  Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
6. Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gau pob ysbyty arhosiad hir ar gyfer pobl ag anableddau dysgu erbyn 2006 a darparu llety addas yn y gymuned yn eu lle.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 47

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2**

O blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 47

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3**

O blaid 8; Ymatal 12; Yn erbyn 27; Cyfanswm 47

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Ni symudwyd gwelliant 4**

**Y cynnig**

O blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47

**Derbyniwyd y cynnig.**

**11.44am**
**Dadl Fer: *NDM1101* Gwenda Thomas: Clefyd Alzheimer**

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.05pm**

**********************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 9 Gorffennaf 2002**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### Dogfennau a osodwyd ar 4 Gorffennaf 2002

The Social Work Education and Training (Diploma in Social Work) Rules 1990 (Amendment) (Wales) Rules 2002 - LD1542. Dim copi Cymraeg ar gael.

### Dogfennau a osodwyd ar 3 Gorffennaf 2002

Voluntary Sector Scheme Second Annual Report - LD1541. Dim copi Cymraeg ar gael.
The Transport and Works (Applications and Objections Procedure) (England and Wales) (Amendment) Rules 2002 - LD1536. Dim copi Cymraeg ar gael.
The Transport and Works (Applications and Objections Procedure) (England and Wales) (Amendment) Rules 2002 - Explanatory Memorandum - LD1537. Dim copi Cymraeg ar gael.
Draft Publication Scheme for the National Assembly for Wales - LD1538. Dim copi Cymraeg ar gael.
Explanatory Note for the Draft Publication Scheme for the National Assembly for Wales - LD1539. Dim copi Cymraeg ar gael.
The Countryside Access (Appeals Procedures) (Wales) Regulations 2002 - Regulatory Appraisal - LD1535. Dim copi Cymraeg ar gael.

## ADRODDIADAU'R PWYLLGOR DEDDFAU

**Dogfennau a osodwyd ar 2 Gorffennaf 2002**

LC511 - Gorchymyn Rheoli Swn (Codau Ymarfer ar gyfer Safleoedd Adeiladu a Safleoedd Agored) (Cymru) 2002 - LD1516
LC502 - Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Dros Dro a Therfynol) (Cymru) 2002 - LD1517
LC503 - Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gweithdrefnau Apelau) (Cymru) 2002 - LD1518
LC504 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (rhif 3) (Cymru) 2002 - LD1519
LC506 - Rheoliadau Awdurdodau Addysg Lleol (Dyfarniadau Addysg Ôl-Orfodol) (Cymru) 2002 - LD1520
LC507 - Rheoliadau Addysg (Cynllun Grant Dysgu'r Cynulliad) (Cymru) 2002 - LD1521
LC508 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Buddsoddiadau a Gymeradwywyd) (Diwygio) (Rhif 2) 2002 - LD1522
LC509 - Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cwmnïau) (Diwygio) (Cymru) 2002 - LD1523
LC510 - Rheoliadau Difwynwyr mewn Bwyd (Cymru) 2002 - LD1524
LC512 - Rheoliadau Plant (Ymadael â Gofal)(Diwygio)(Cymru) 2002 - LD1525
LC513 - Gorchymyn Crancod Heglog Bach (Cymru) 2002 - LD1526
LC514 - Rheoliadau Pysgod Cregyn (Pennu Cramenogion) (Cymru) 2002 - LD1527